

# CYNGOR BRO MORGANNWG

# CODI TÂL AM OFAL A GWASANAETHAU CYMORTH

## dan

# DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

## 01 Ebrill 2026

**“Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English.”**

# CYNNWYS


| ADRAN | RHIF TUDALEN |
|---|---|
| Y Cefndir Deddfwriaethol | 3 |
| Egwyddorion Allweddol y Polisi Codi Tâl | 4 |
| Cwmpas y Polisi Codi Tâl | 6 |
| Y Broses Asesu Ariannol | 8 |
| Y Weithdrefn Codi Tâl | 10 |
| Asesu Cyfalaf | 12 |
| Asesu Incwm | 15 |
| Swm Incwm Isaf (SII) | 16 |
| Gwariant sy'n Gysylltiedig ag Anabledd (GGA) | 17 |
| Cyfrifo'r Tâl | 18 |
| Taliadau Uniongyrchol | 20 |
| Amddifadu o Asedau/Incwm ac Adennill Dyledion | 20 |


**Atodiadau**


| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | **Taliadau Safonol ar gyfer Gofal a Gwasanaethau Cymorth** |
| **Atodiad 2** | **Diystyriadau Cyfalaf ac Incwm** |
| **Atodiad 3** | **Lwfansau/Treuliau** |
| **Atodiad 4** | **Gweithdrefn Adolygu Tâl** |


**“Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English.”**

## Y CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

### Cyflwyniad

**1.1** Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (‘DGCLl 2014’) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'n cynnig y fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar les, hawliau a chyfrifoldebau. Mae'n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella lles oedolion sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sy'n oedolion y mae angen cymorth arnynt, i greu un darn o ddeddfwriaeth.

**1.2** Mae'r Ddeddf yn cynnig un fframwaith cyfreithiol ar gyfer codi tâl am ofal a chymorth, neu yn achos gofalwr, codi tâl am gymorth. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau o hyd rhwng codi tâl am ofal mewn cartref gofal a chodi tâl am ofal yn y cartref / yn y gymuned. Nodir gwahaniaethau o’r fath yn y Polisi Codi Tâl hwn.

**1.3** Mae'r Polisi Codi Tâl hwn yn berthnasol i bob asesiad ariannol a gynhelir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017, waeth beth fo'r math o ofal a roddir neu ble y caiff ei dderbyn.

### Rheoliadau a Chod

**1.4** Mae DGCLl 2014 (a61) yn cynnig rheoliadau i nodi'n fanylach sut y bydd y trefniadau codi tâl yn gweithredu ar ôl 6 Ebrill 2016. Rhaid i'r Awdurdod ddilyn y rheoliadau wrth gynnal asesiadau ariannol a phenderfynu ar unrhyw daliadau (paragraff 5.1 y canllawiau) ac wrth arfer ei swyddogaethau eraill mewn perthynas â chodi tâl. Os bydd unrhyw anghydfod ynghylch unrhyw ran o'r Polisi Codi Tâl hwn, mae cynnwys y rheoliadau codi tâl a'r Canllawiau yn cael blaenoriaeth. Y 'Rheoliadau Codi Tâl' perthnasol yw: -

a. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015;
b. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffi) (Cymru) 2015;
c. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015;
d. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015;
e. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Gosod Ffi) (Cymru) 2015.

**1.5** Mae dolen i'r holl Reoliadau ar gael yma: [Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)]

**1.6** Yn ogystal, mae Cod Ymarfer (Rhan 4/5 Asesu a Chodi Tâl Ariannol) ('y

Canllawiau') wedi'i gyhoeddi dan adran 145 DGCLl 2014, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Rhaid i awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r Canllawiau a cheir cyfeiriadau yn y Polisi Codi Tâl hwn at y Canllawiau a'r atodiadau perthnasol. Mynegir gofyniad yn y Canllawiau fel 'rhaid' neu 'rhaid peidio', a phan fo gan awdurdod lleol ddisgresiwn, fe'i mynegir fel 'gall' neu 'dylai/ni ddylai' (gweler paragraffau 1.3 ac 1.4 1 y Canllawiau).

**1.7** Mae dolen i'r Cod Ymarfer ar gael gan:

Codau Ymarfer a chanllawiau | Gofal Cymdeithasol Cymru

**EGWYDDORION ALLWEDDOL Y POLISI CODI TÂL**

**2.1** Egwyddor gyffredinol y Ddeddf yw mai dim ond yr hyn y gallant ei fforddio y mae angen i bobl y gofynnir iddynt dalu ffi ei dalu (paragraff 3.4 y Canllawiau). Gall awdurdodau lleol bellach arfer eu disgresiwn o ran a ddylid codi tâl am ofal mewn cartref gofal, am ofalwyr ac am ofal cartref (paragraff 3.1 y Canllawiau). Bydd yr Awdurdod yn parhau i godi tâl pan fo person yn derbyn gofal mewn cartref gofal a hefyd pan fo'r person yn derbyn gofal yn y cartref.

**2.2** Nodir yr egwyddorion sy'n sail i'r fframwaith asesu a chodi tâl ariannol yn y Canllawiau (paragraff 3.4), a nodir isod. Felly, rhaid i'r Awdurdod: -

a. sicrhau na chodir mwy ar bobl nag y mae'n rhesymol ymarferol iddynt eu talu;
b. peidio â chodi mwy ar bobl na'r gost i'r awdurdod o roi neu drefnu'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn (neu y maent i'w cael eu hunain drwy daliadau uniongyrchol);
c. bod yn gyson, er mwyn dileu amrywiad yn y ffordd y caiff pobl eu hasesu'n ariannol;
d. bod yn glir ac yn dryloyw, fel bod pobl yn gwybod faint y codir arnynt;
e. hyrwyddo canlyniadau lles, cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi'r weledigaeth o annibyniaeth, llais a rheolaeth;
f. cefnogi gofalwyr i ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac i ofalu'n effeithiol ac yn ddiogel;
g. canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o sefyllfaoedd gofal a gofalu a'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i helpu i fodloni anghenion a chanlyniadau lles pobl;
h. codi tâl yn gyfartal fel bod y rheiny sydd ag anghenion gofal a chymorth tebyg yn cael eu trin yr un fath a lleihau anghysondebau rhwng y ffordd y codir tâl am wahanol fathau o ofal a chymorth;
i. annog y rheiny sydd am aros mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant neu sydd am gael gwaith, addysg neu hyfforddiant, neu sydd am gynllunio ar gyfer costau bodloni eu hanghenion yn y dyfodol, i wneud hynny gan eu galluogi i wneud hynny;
j. bod yn gynaliadwy i awdurdodau lleol yn yr hirdymor.

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

**Pobl sydd â diffyg galluedd**

**2.3** Pan fo gan berson ddiffyg galluedd gellir ei asesu o hyd yn berson sy'n gallu cyfrannu tuag at gost ei ofal a'i gymorth. Lle bo'n bosibl, bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda rhywun sydd â'r awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ariannol ar ran y person sydd â diffyg galluedd. Os nad oes person o'r fath, yna gall yr Awdurdod gysylltu â'r Llys Gwarchod (paragraff 5.5 y Canllawiau).

**Budd-daliadau Lles**

**2.4** Bydd person sy'n destun asesiad ariannol yn cael cynnig cyngor ar y budd-daliadau lles y gallai fod ganddynt yr hawl i'w cael. Lle bo angen, gall y cymorth hwn hefyd gynnwys cymorth i gwblhau hawliadau budd-daliadau a chamau dilynol, os yw'r person yn dymuno. Bydd y cyngor hwn fel arfer yn cael ei roi gan Aseswyr Cyllid a Budd-daliadau'r Awdurdod yn rhan o'r broses asesu ariannol. Lle bo'n bosibl, gellir cyfeirio'r person at sefydliadau neu asiantaethau perthnasol i gael cymorth annibynnol, pe bai'n well ganddo (paragraff 5.8 y Canllawiau).

**Adolygiad Blynyddol o Asesiadau Ariannol**

**2.5** Caiff person sydd wedi cael asesiad ariannol ei ailasesu'n flynyddol er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i incwm neu gyfalaf.

**2.6** Cynhelir ailasesiad ariannol i ystyried unrhyw fudd-daliadau ychwanegol a roddir o ganlyniad i unrhyw gyngor ar fudd-daliadau lles a roddwyd i'r person yn rhan o'r broses asesu ariannol. Caiff y tâl ei ailgyfrifo pan fo budd-daliadau lles ychwanegol wedi'u rhoi. Pan gaiff asesiad sy'n bodoli eisoes ei ailgyfrifo, gan arwain at newid yn swm y tâl, bydd y person yn cael datganiad o unrhyw dâl diwygiedig.

**2.7** Os bydd amgylchiadau ariannol person yn newid, dylai hysbysu'r Cyngor fel y gellir cynnal ailasesiad.

## CWMPAS Y POLISI CODI TÂL

### Pan godir tâl

**3.1** Mae'r Polisi Codi Tâl hwn yn berthnasol i'r oedolion hynny (h.y. pobl 18 oed a hŷn) sy'n derbyn gofal a chymorth a roddir a/neu a drefnir gan yr Awdurdod i fodloni anghenion cymwys person (gweler paragraff 5.1 y Canllawiau), p'un a yw'r gofal a'r cymorth hwnnw: -

a. mewn cartref gofal, neu
b. yn y gymuned; a/neu
c. yn cael eu rhoi drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol.

**3.2** Mae DGCLl 2014, ynghyd â'r rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig, yn gwahardd yr Awdurdod rhag codi tâl ar blentyn am y gofal a'r cymorth a roddir dan Ran 4 DGCLl 2014 (Bodloni Anghenion). Gwaherddir yr Awdurdod hefyd rhag codi tâl ar rieni/gwarcheidwaid plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth o'r fath. Os yw'r plentyn yn ofalwr ynddo'i hun, ni chodir tâl am unrhyw gymorth a roddir iddo (dan Ran 4 DGCLl 2014) (paragraff 5.6 y Canllawiau).

**3.3** Pan fo person yn dymuno ymrwymo i gytundeb preifat am ofal a chymorth yn ychwanegol at yr hyn a roddir neu a drefnir gan yr Awdurdod, nid yw'r Polisi Codi Tâl hwn yn gymwys i’r hyn a godir nac i’r hyn a delir am unrhyw ofal preifat o'r fath. Nid oes unrhyw beth yn DGCLl 2014, yn y rheoliadau nac yn y Canllawiau sy’n atal person rhag ymrwymo i drefniadau preifat o'r fath, lle mae’n dewis gwneud hynny (paragraff 3.6 y Canllawiau).

**3.4** Ar ôl i'r broses asesu ariannol ddod i ben, gall person fod yn atebol i dalu ffi tuag at ei gostau. Pan fo taliadau i'w talu, mae atebolrwydd y person i dalu am ei ofal a'i gymorth yn dechrau ar y dyddiad y mae'n eu derbyn gyntaf, boed yn y gymuned, mewn cartref gofal neu drwy daliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, dim ond ar ôl y dyddiad y rhoddir datganiad o'r tâl i'r defnyddiwr gwasanaeth y gellir casglu taliadau (paragraff 5.22 y Canllawiau).

**Pobl na chodir tâl arnynt am eu gwasanaethau gofal a chymorth**

**3.5** Mae rhai categorïau o bobl na fydd Awdurdod yn codi tâl arnynt gan fod yn rhaid trefnu'r math o ofal a chymorth am ddim (para 5.12 y Canllawiau). Dyma lle mae'r person sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth: -

a. yn dioddef o unrhyw fath o Glefyd Creutzfeldt-Jakob (rhaid i'r clefyd fod wedi'i ddiagnosio gan weithiwr meddygol proffesiynol cofrestredig);
b. yn gymwys i dderbyn ei ofal a'i gymorth yn becyn o wasanaethau ôl-ofal yn unol ag Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983;

**Gwasanaethau a ddarperir yn ddi-dâl**

**3.6** Mae rhai gwasanaethau na chaiff yr Awdurdod godi tâl amdanynt, fel a ganlyn:-

a. Gofal a chymorth 'ailalluogi' a roddir i berson am hyd at chwe wythnos (neu fwy, fel y cytunwyd) i'w alluogi i gynnal neu adennill ei allu i fyw'n annibynnol gartref. Mae hyn yn berthnasol pan drefnir yr ailalluogi dan y Ddeddf (dan Ran 2 (Swyddogaethau cyffredinol); Rhan 4 (Bodloni anghenion) neu drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol dan adrannau 50 neu 52 (Taliadau Uniongyrchol) (gweler para 5.12 y Canllawiau). Pan ddaw'r cyfnod ailalluogi i ben, a bod y person yn parhau i dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth yn y gymuned, bydd y darpariaethau codi tâl arferol yn berthnasol. Pan oedd person yn derbyn gofal a chymorth parhaus yn y gymuned cyn iddo gael gwasanaethau ailalluogi, dim ond y pecyn gofal ailalluogi ychwanegol na chodir tâl amdano am hyd at chwe wythnos, ac ar ôl hynny bydd arferion codi tâl arferol ar gyfer y pecyn cyfan yn berthnasol;

b. Trafnidiaeth i wasanaeth dydd pan ddarperir hynny gan yr Awdurdod i fodloni anghenion cymwys person (paragraff 5.12);

c. Gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol a ddarperir gan yr Awdurdod yn unol â Rhan 10 (Cwynion, Cynrychiolwyr a Gwasanaethau Eiriolaeth) y Ddeddf (h.y. pan all person oresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan lawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu dim ond gyda chymorth unigolyn priodol ac nad yw unrhyw unigolyn o'r fath ar gael) (paragraff 5.12);

d. Gwybodaeth a chyngor a roddir (dan Ran 2 GDCLI 2014) i ddefnyddwyr gwasanaeth, neu ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth, am ystod y gwasanaethau a ddarperir a'r gwasanaethau sydd ar gael (paragraff 5.12);

e. Mae asesu anghenion gofal; cynnal asesiad ariannol; cynllunio gofal; cynlluniau gofal; rhoi datganiadau am dâl am wasanaeth; cynnal adolygiad o benderfyniad codi tâl neu dâl ei hun yn wasanaethau nad yw’r Awdurdod yn codi tâl amdanynt, gan nad yw prosesau o'r fath yn gyfystyr â rhoi gofal a chymorth (para 5.12);

f. Ni chodir tâl ar ofalwyr am wasanaethau cymorth a roddir iddynt yn ofalwr. Mae gwasanaeth a ddarperir i fodloni anghenion gofal a chymorth y person y mae'r gofalwr yn rhoi gofal iddo (e.e. am seibiant) yn wasanaeth i'r person sy'n derbyn gofal ac nid yn wasanaeth i'r gofalwr. At ddibenion codi tâl, byddai felly'n rhan o unrhyw dâl am ofal a chymorth a roddir i'r person, yn hytrach na'r gofalwr.

## Y BROSES ASESU ARIANNOL

### Dim gofyniad am asesiad ariannol

**4.1** Nid yw'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i gynnal asesiad ariannol dan yr amgylchiadau canlynol (paragraff 5.18): -

a. Mae'r person yn derbyn gofal a chymorth na ellir codi tâl amdanynt (gweler 3.4 a 3.5 uchod);

b. Mae'r person yn gwrthod cael asesiad ariannol;

c. Pan fo'r gwasanaeth gofal a chymorth a ddarperir (gan gynnwys gwasanaethau ataliol a chymorth) yn cynnwys tâl cyfradd safonol (gweler paragraffau 5.10, 5.11, 5.12, 5.13 a 5.14 isod);

d. Mae'r person yn gwrthod rhoi (yn rhannol neu o gwbl) y wybodaeth a/neu'r dogfennau o fewn 15 diwrnod gwaith (neu estyniad amser arall y cytunwyd arno) y mae ei/eu hangen yn rhesymol ar yr Awdurdod i gynnal yr asesiad ariannol.

**4.2** Os nad yw'r person wedi rhoi'r wybodaeth/dogfennau y gofynnwyd amdani/amdanynt, gall yr Awdurdod benderfynu bod ganddo ddigon o wybodaeth i benderfynu ar y tâl, ar sail y wybodaeth/dogfennau sydd ar gael. Er enghraifft, os ceir gwybod bod gan y person gynilion neu ei fod yn berchen ar eiddo, gyda gwerth sy’n fwy na'r terfyn cyfalaf, gall yr Awdurdod fod yn fodlon bod y person yn gallu fforddio swm y tâl mewn perthynas â'i ofal a'i gymorth (paragraffau 5.18 a 5.19 y Canllawiau).

### Gwybodaeth i'w rhoi gan yr Awdurdod cyn yr asesiad ariannol

**4.3** Ym mhob achos, ac eithrio'r rheiny a nodir ym mharagraffau 4.1 a 4.2 uchod, rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad ariannol a phenderfynu faint y gall y person fforddio ei dalu'n rhesymol.

**4.4** Cyn cynnal asesiad ariannol, bydd yr Awdurdod yn rhoi'r wybodaeth ganlynol (paragraff 5.14 y Canllawiau a Rheoliad 3 y Rheoliadau Asesu Ariannol): -

a. manylion y gofal a'r cymorth sy'n cael eu cynnig neu eu rhoi i'r person y gellir codi tâl amdanynt, gan gynnwys gofal a chymorth y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried neu eu gwneud ar eu cyfer;

b. manylion y Polisi Codi Tâl ar gyfer rhoi gofal a chymorth, sy'n nodi'r elfennau hynny o'r gofal a'r cymorth sy'n destun tâl; y ffi safonol y caniateir ei chodi; unrhyw daliadau cyfradd safonol a swm uchaf y tâl wythnosol, pan fo'r tâl hwnnw'n is na'r tâl safonol;

c. manylion y broses asesu ariannol, gan gynnwys y terfynau cyfalaf presennol (£50,000 ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrsio a £24,000 ar gyfer Gofal Amhreswyl ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27);

ch. manylion y wybodaeth a'r dogfennau y mae angen i berson eu rhoi ar gyfer yr asesiad ariannol, a fydd yn cynnwys manylion ei incwm, ei asedau a'i wariant, er mwyn gallu cynnal asesiad ariannol;

d. yr amserlenni ar gyfer rhoi’r wybodaeth at ddibenion yr asesiad ariannol a chanlyniadau peidio â’i rhoi o fewn yr amserlenni gofynnol a/neu wrthod caniatáu i'r Awdurdod gynnal asesiad ariannol;

dd. gwybodaeth am y datganiad ysgrifenedig sydd i'w roi gan yr Awdurdod ar ôl cwblhau'r broses asesu ariannol, am allu'r person i dalu ffi;

e. manylion unrhyw gyfleusterau ymweld â'r cartref, gyda manylion cyswllt Swyddog Cyllid o fewn yr Awdurdod sy'n gallu rhoi mwy o wybodaeth, os oes angen;

f. gwybodaeth am hawl y person i benodi trydydd parti i gynorthwyo, neu i weithredu ar ei ran, mewn perthynas â'r broses asesu ariannol;

ff. manylion cyswllt y swyddi hynny o fewn yr Awdurdod y gall y person gysylltu â hwy i gael mwy o wybodaeth.

## Y WEITHDREFN CODI TÂL

### Pan roddir y gofal a'r cymorth yng nghartref y person

**5.1** Penderfynir ar y tâl yn ystod y broses asesu ariannol, yn unol â rheoliadau ynghylch trin cyfalaf ac incwm pan fo gofal y person yn cael ei roi yn y gymuned. Ceir mwy o wybodaeth am drin cyfalaf ac incwm yn y Polisi Codi Tâl hwn ym mharagraffau 6.1, 6.2, 6.3, 6.4, 6.5, 6.6, 6.7, 6.8, 6.9, 6.10 a 6.11 isod.

**5.2** Pan fo'r Awdurdod yn penderfynu bod amgylchiadau ariannol person yn ddigonol iddo dalu tuag at ei ofal a'i gymorth, byddwn yn cyfrifo'r tâl safonol am y gofal a'r cymorth a roddir i'r person (gweler Atodiad 1). Os yw'r tâl safonol yn uwch na'r tâl uchaf (£100 yr wythnos ar gyfer y flwyddyn 2026/27), dim ond y tâl uchaf a godir ar y person.

**5.3** Ar ôl cwblhau'r broses asesu ariannol, anfonir datganiad ysgrifenedig o'r tâl at y person a fydd yn atebol i dalu am ei ofal a'i gymorth o'r dyddiad y rhoddwyd y datganiad gyntaf. Fodd bynnag, nid oes angen gwneud taliad tan ar ôl y dyddiad yr anfonir y datganiad at y person.

**Pan roddir y gofal a'r cymorth mewn cartref gofal**

**5.4** Byddwn yn cyfrifo'r tâl safonol am y gofal a'r cymorth a roddir i'r person pan roddir ei ofal mewn cartref gofal. Mae swm y tâl safonol yn amrywio yn dibynnu ar y math o ofal sy'n cael ei roi, gyda'r cyfraddau'n cael eu haddasu bob blwyddyn (bob mis Ebrill fel arfer).

**5.5** Bydd swm y tâl wythnosol yn cael ei bennu gan y broses asesu ariannol, yn unol â rheoliadau ar derfyn cyfalaf a'r SII. Ceir mwy o wybodaeth yn y Polisi Codi Tâl hwn ym mharagraffau 8.1, 8.2, 8.3, 8.4, 8.5, 8.6 ac 8.7 isod.

**5.6** Ar ôl cwblhau'r asesiad ariannol, anfonir datganiad ysgrifenedig o'r tâl at y person ac ni fydd angen gwneud taliad tan ar ôl y dyddiad yr anfonir y datganiad at y person. Fodd bynnag, ar ôl anfon y datganiad, mae'r person yn atebol i dalu am y gofal a'r cymorth o'r dyddiad y cawson nhw eu hariannu gan yr Awdurdod (h.y. fel arfer o'r dyddiad y symudodd y person i'r cartref gofal).

**Adolygu Penderfyniadau Codi Tâl**

**5.7** Mae'r Rheoliadau ac Atodiad E y Canllawiau yn cynnig proses i alluogi'r person i adolygu'r tâl sy'n cael ei godi am ei ofal a'i gymorth. Mae hefyd yn berthnasol i'r trydydd partïon hynny y mae'r Awdurdod yn ceisio adennill ganddynt asedau/incwm y mae'r Awdurdod yn credu eu bod wedi'u trosglwyddo iddynt er mwyn osgoi taliadau.

**5.8** Mae mwy o wybodaeth am weithdrefnau Adolygu Taliadau a Godir ar gael yn Atodiad 4 y Polisi Codi Tâl hwn.

**5.9** Pan fydd person yn gofyn i'w dâl am ofal a chymorth gael ei adolygu, bydd y gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu iddo gan yr Awdurdod. Fodd bynnag, bydd y person yn parhau'n atebol am y taliadau, a fydd yn parhau i gronni hyd nes y gwneir penderfyniad..

**Taliadau cyfradd safonol**

**5.10** Gall yr Awdurdod godi tâl safonol am y gwasanaethau canlynol (paragraff 6.1 y Canllawiau):-

a. gofal a chymorth a roddir dan Ran 4 DGCLl 2014 (bodloni anghenion);
b. Gwasanaethau ataliol (a15 DGCLl 2014);
c. Gwasanaethau cymorth (a17 DGCLl 2014).

**5.11** Codir taliadau o'r fath am ofal a chymorth lefel isel a chost isel, fel arfer am ofal a chymorth a roddir yn gyfnewid am fyw arferol. Rhaid i'r tâl cyfradd safonol beidio â bod yn fwy na'r gost a ysgwyddir wrth drefnu neu ddarparu'r gwasanaeth.

**5.12** Pan fo'r Awdurdod yn codi tâl safonol am wasanaeth, nid oes dyletswydd ar yr Awdurdod i gynnal asesiad ariannol: fel arfer byddai'n anghymesur gwneud hynny am yr hyn sydd fel arfer yn dâl cymedrol. Fodd bynnag, os yw person yn talu nifer o daliadau cyfradd safonol, bydd yr Awdurdod yn cynnig asesiad ariannol i'r person os oes rheswm dros gredu bod y taliadau cyfradd safonol cyfunol yn rhy ddrud i'r person, neu y gallent fod yn rhy ddrud iddo. (paragraff 6.4 y Canllawiau).

**5.13** Pan fo person yn talu'r tâl wythnosol uchaf am ei wasanaethau gofal a chymorth eraill, rhaid i unrhyw daliadau cyfradd safonol gael eu talu gan y person yn ychwanegol at y tâl wythnosol uchaf (£100.00 yr wythnos ar hyn o bryd) (paragraff 7.2 y Canllawiau).

**5.14** Pan fo'r Awdurdod yn cynnal asesiad ariannol, ystyrir y swm a delir gan y person mewn taliadau cyfradd safonol am wasanaethau a nodir ym mharagraff 5.10 uchod wrth gyfrifo'r SII (gweler paragraff 8.1 isod).

**5.15** Pan fydd yr Awdurdod yn ariannu lleoliad Cartrefi Gofal, tra bod y gost yn cronni yn erbyn gwerth eiddo'r person, bydd taliadau cyfradd safonol ar gyfer costau gweinyddol a chyfreithiol yn berthnasol.

## ASESU CYFALAF

**6.1** Ystyrir mai cyfalaf yw'r adnoddau ariannol a ddelir gan berson sydd ar gael iddo eu defnyddio. Fel arfer, ystyrir bod adnoddau cyfalaf yn fwy gwydn nag incwm, gan eu bod fel arfer yn cynhyrchu elw (e.e. cynilion, buddsoddiadau ac eiddo).

**6.2** Cyfrifir cyfalaf person yn unol â Rhan 4 (Trin a chyfrifo cyfalaf) ac Atodlen 2 (Cyfalaf i'w ddiystyru) Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 ac mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol:-

a. Ni chodir tâl ar berson ddwywaith am yr un adnoddau, a gaiff eu trin yn incwm neu gyfalaf, ond nid y ddau (paragraff 2.5 Atodiad A y Canllawiau).

b. Dim ond cyfalaf y person sy'n cael ei asesu y gellir ei ystyried yn yr asesiad ariannol o'r hyn y gall fforddio ei dalu (paragraff 5.4 y Canllawiau).

c. Pan fo'r person yn dal cyfalaf fel rhan o gwpl, y rhagdybiaeth yn y lle cyntaf yw bod gan y ddau berson gyfran gyfartal o'r cyfalaf hwnnw. Gellir asesu cyfalaf cwpl ond dim ond pan fo hyn yn fwy manteisiol yn ariannol i'r person sy'n cael ei asesu (paragraff 5.3 y Canllawiau).

d. Caiff gwerth ased cyfalaf ei asesu er mwyn ei ystyried yn yr asesiad ariannol. Ac eithrio Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol, y prisiad fydd gwerth cyfredol y farchnad neu'r gwerth ildio minws:

   I. 10% o'r gwerth os bydd unrhyw dreuliau gwirioneddol yn gysylltiedig â gwerthu'r ased; ac
   II. Unrhyw ddyledion sy'n weddill a sicrhawyd ar yr ased.

### Terfyn Cyfalaf

**6.3** Y terfyn cyfalaf yw cyfanswm gwerth asesedig asedau cyfalaf person; dyma'r pwynt lle mae gan berson hawl i gael cymorth ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd gan yr Awdurdod i fodloni ei anghenion gofal a chymorth cymwys (paragraff 5.9 y Canllawiau).

**6.4** Caiff unrhyw gyfalaf sy'n is na'r terfyn cyfalaf ei ddiystyru yn yr asesiad ariannol. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni ddylai fod angen i berson gyfrannu at gost ei ofal a'i gymorth gan ddefnyddio ei asedau cyfalaf (paragraff 5.10 y Canllawiau).

**6.5** Os yw cyfalaf y person ar y terfyn cyfalaf sydd mewn grym neu’n uwch na hynny, bydd y person:-

a. yn agored i dalu cost lawn ei ofal a'i gymorth mewn cartref gofal;

b. angen talu’r tâl uchaf, y cyfraniad neu'r ad-daliad sy'n gymwys os yw’n cael gofal a chymorth yn ei gartref ei hun neu yn y gymuned, lle mae cost wythnosol ei ofal a'i gymorth ar lefel y ffi wythnosol uchaf neu'n uwch na hynny.

**Pan fo'r Awdurdod yn trefnu gofal person**

**6.6** Gall person sydd â chyfalaf ar y terfyn cyfalaf neu'n uwch na hynny ofyn i'r Awdurdod drefnu ei ofal a'i gymorth i fodloni ei anghenion gofal a chymorth cymwys, os yw'n dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd angen i bobl yn y sefyllfa hon dalu cost lawn eu gofal a'u cymorth mewn cartref gofal, neu'r gost lawn hyd at y tâl wythnosol uchaf mewn perthynas â gofal a chymorth yn y gymuned, hyd nes y bydd gwerth eu cyfalaf ar lefel y terfyn cyfalaf neu'n is na hynny (paragraff 5.11 y Canllawiau).

**Cyfalaf i'w ddiystyru**

**6.7** Ni chaiff rhai mathau o gyfalaf eu cynnwys wrth asesu cyfalaf person h.y. cânt eu 'diystyru' (gweler para 2.28 y Canllawiau). Gall y rhain gynnwys eiddo personol; taliadau anaf personol; blwydd-daliadau; polisïau sicrhau bywyd a mathau penodol o fondiau buddsoddi.

**6.8** Pan fo person yn cael gofal a chymorth gan yr Awdurdod, ac nad yw’n siŵr am sut y caiff ei gyfalaf ei drin mewn unrhyw asesiad ariannol, dylai ofyn am gyngor gan Dîm Cyllid Gofal Cymunedol yr Awdurdod a/neu gytuno i asesiad ariannol llawn, a fydd yn galluogi'r Awdurdod i ddod i benderfyniad priodol.

**Eiddo fel ased cyfalaf**

**6.9** Caiff gwerth prif gartref neu unig gartref person ei ddiystyru mewn asesiad ariannol pan:-

a. Fo’r person yn cael gofal a chymorth amhreswyl yn y gymuned;

b. Fo’r person yn cael gofal a chymorth mewn cartref gofal dros dro.

**6.10** Fo'r person yn cael gofal a chymorth mewn cartref gofal ond y mae ei **brif neu ei unig** gartref yn cael ei feddiannu gan unrhyw un o'r bobl ganlynol, ar yr amod ei fod yn cael ei feddiannu ganddynt fel eu **prif neu eu hunig** gartref A bod yr eiddo wedi'i feddiannu'n barhaus ganddynt ers cyn i'r person fynd i gartref gofal (paragraff 3.1 y Canllawiau):-

a. Partner, cyn-bartner neu bartner sifil y person, ac eithrio pan fyddant wedi ymwahanu neu ysgaru;

b. Rhiant unigol gyda phlentyn dibynnol a oedd yn bartner i'r person ond maent bellach wedi ymwahanu neu ysgaru;

c. perthnasau penodol (a ddiffinnir ym mharagraff 3.2 y Canllawiau) y person neu aelod o deulu'r person (a ddiffinnir ym mharagraff 3.3 y Canllawiau) sy'n:

   I. 60 oed neu'n hŷn; neu
   II. plentyn i'r person sydd dan 18 oed;
   III. analluog.

**Cyfalaf tybiannol**

**6.11** Mewn rhai amgylchiadau, caiff person ei drin fel pe bai'n meddu ar gyfalaf er nad yw'n meddu arno. 'Cyfalaf tybiannol' yw hyn, er enghraifft, lle byddai ar gael i berson pe bai'n gwneud cais amdano neu gyfalaf y mae'r person wedi amddifadu ei hun ohono er mwyn lleihau swm y tâl. Bydd gwerth 'cyfalaf tybiannol' person, yr aseswyd bod ganddo gyfalaf o'r fath, yn lleihau dros amser.

**ASESU INCWM**

**7.1** Caiff incwm person ei gyfrifo'n wythnosol yn unol â Rhan 3 (Trin a chyfrifo incwm) ac Atodlen 1 (Symiau i'w diystyru wrth gyfrifo incwm) Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015.

**7.2** Dim ond incwm y person sy'n cael ei asesu y gellir ei ystyried yn yr asesiad ariannol o'r hyn y gall fforddio ei dalu. Pan fo'r person yn derbyn incwm fel rhan o gwpl, y rhagdybiaeth yn y lle cyntaf yw bod gan y ddau berson gyfran gyfartal o'r incwm hwnnw. Gellir asesu incwm cwpl dim ond pan fo hyn yn fwy

manteisiol yn ariannol i'r person sy'n cael ei asesu (paragraff 2.2 Atodiad B).

**7.3** Pan fo person yn cael gofal a chymorth gan yr Awdurdod, ac nad yw’n siŵr am sut y caiff ei incwm ei drin mewn unrhyw asesiad ariannol, dylai ofyn am gyngor gan Dîm Cyllid Gofal Cymunedol yr Awdurdod a/neu gytuno i asesiad ariannol llawn, a fydd yn galluogi'r Awdurdod i ddod i benderfyniad priodol am sut i drin ei incwm.

**Budd-daliadau Lles**

**7.3** Dylai'r Awdurdod ystyried y rhan fwyaf o fudd-daliadau lles y mae pobl yn eu cael yn rhan o'r asesiad ariannol (e.e. pensiwn y wladwriaeth; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) (paragraffau 2.11 a 2.13 Atodiad B). Fodd bynnag, rhaid diystyru rhai budd-daliadau lles yn llawn (e.e. elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl / Taliad Annibyniaeth Bersonol) (paragraff 2.12 Atodiad B).

**Incwm Arall**

**7.4** Dylai’r Awdurdod ystyried ffynonellau incwm eraill (net unrhyw dreth ac yswiriant gwladol) yn yr asesiad ariannol (paragraffau 2.3 a 2.4 Atodiad B, gan gynnwys incwm o flwydd-daliadau, pensiynau galwedigaethol a phersonol a bondiau buddsoddi. Fodd bynnag, ym mhob achos, **rhaid** diystyru enillion fel enillydd cyflogedig neu’n enillydd hunangyflogedig yn llawn mewn unrhyw asesiad ariannol (paragraffau 2.6-2.9 Atodiad B).

**Diystyru Incwm a Lwfansau**

**7.5** Ac eithrio enillion, caiff rhai mathau o incwm eu diystyru hefyd, naill ai'n llawn neu'n rhannol. Er enghraifft, rhaid diystyru incwm sy'n deillio o ymddiriedolaethau anafiadau personol yn llawn, yn ogystal ag incwm mewn nwyddau. Caiff rhai mathau o incwm eu diystyru'n rhannol, fel diystyru cynilion yn seiliedig ar incwm cymwys (paragraffau 2.28 a 2.29 Atodiad B). Nodir rhestr lawn o'r incwm a ddiystyrir yn Atodiadau 2 a 3 y Polisi Codi Tâl hwn.

**Incwm Tybiannol**

**7.6** Mewn rhai amgylchiadau, gellir trin person fel pe bai ganddo incwm er nad oes ganddo’r incwm hwnnw mewn gwirionedd, 'incwm tybiannol' yw hyn. Os yw'r Awdurdod yn fodlon y byddai'r incwm ar gael i'r person neu y dylai fod ar gael iddo, caiff ei drin yn incwm tybiannol a'i ystyried yn yr asesiad ariannol.

**7.7** Enghreifftiau o incwm tybiannol fyddai pan fyddai gan y person hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ond nad yw wedi gwneud cais amdano, neu lle byddai'r person yn gymwys i gael incwm o gronfa bensiwn bersonol ond nad yw wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol i wneud hynny (paragraffau

2.32 a 2.33 Atodiad B).

**SWM INCWM ISAF (SII)**

**Pan fo'r person yn cael gofal a chymorth yn ei gartref/cymuned ei hun**

**8.1** Diben y SII yw sicrhau bod person yn gallu fforddio talu ei gostau byw bob dydd, yn ogystal â'r tâl am ei ofal a'i gymorth. Ni chaiff incwm person ei leihau'n is na'r SII, ar ôl didynnu'r tâl am ei ofal a'i gymorth amhreswyl (paragraff 11.3 y Canllawiau).

**8.2** Yn fras, cyfrifir y SII fel a ganlyn:-

a. swm 'hawl sylfaenol' cymhorthdal incwm, lwfans cyflogaeth a chymorth, neu gredyd gwarant (gan gynnwys premiwm gofalwyr) (gweler Atodiad 3); a

b. swm o ddim llai na 35% o'r hawl sylfaenol; a

c. swm pellach i wneud iawn am wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd: ar y cyfraddau presennol, mae hyn yn £16.50 yr wythnos i un person a £33.00 yr wythnos lle mae pob aelod o gwpl yn cael budd-dal anabledd (gweler Atodiad 3); a

d. swm wythnosol sy'n cyfateb i unrhyw daliadau cyfradd safonol sy'n cael eu talu gan y person am wasanaethau a ddarperir dan Ran 4 (bodloni anghenion), neu am wasanaethau ataliol neu gymorth a ddarperir yn y drefn honno dan adrannau 15 a 17 y Ddeddf.

**Pan fo person yn cael llety mewn cartref gofal**

**8.3** Pan fo cyfalaf person yn is na'r terfyn cyfalaf, bydd yr Awdurdod yn cyfrannu tuag at gostau lleoliad parhaol mewn cartref gofal, lle bydd yn cael ei ddarparu i fodloni anghenion gofal a chymorth y person.

**8.4** Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd disgwyl i'r person gyfrannu'r rhan fwyaf o'i incwm at dalu ffioedd ei gartref gofal. Rhaid i'r Awdurdod ganiatáu i'r person gadw SII o £46.35 yr wythnos (cyfraddau 2026/27) i'w alluogi i brynu eitemau personol (e.e. dillad ac eitemau eraill nad ydynt yn rhan o'i ofal a'i gymorth).

Mae hwn yn swm a bennir gan Lywodraeth Cymru, fel arfer o bob mis Ebrill.

**8.5** Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i gymhwyso SII uwch mewn achosion unigol (paragraff 9.4 y Canllawiau a paragraff 3.5 Atodiad B).

### Arosiadau byrdymor a hirdymor mewn cartref gofal

**8.6** Pan fo person yn **breswylydd byrdymor** mewn cartref gofal (h.y. arhosiad nad yw'n hwy nag 8 wythnos), bydd yr Awdurdod yn cynnal asesiad ariannol fel pe bai'r person yn cael gofal a chymorth yn ei gartref ei hun.

**8.7** Gall person fod mewn cartref gofal fe **preswylydd dros dro** am 52 wythnos (neu os yw'n annhebygol y bydd yno am gyfnod hwy na hyn). Pan fo person yn breswylydd dros dro, codir tâl am ei ofal a'i gymorth dan y darpariaethau preswyl dros dro. Mae'r dull hwn yn darparu ar gyfer diystyriadau a lwfansau mwy hael yn yr asesiad ariannol nag ar gyfer preswylydd parhaol.

## GWARIANT SY'N GYSYLLTIEDIG AG ANABLEDD (GGA)

**9.1** Bydd yr Awdurdod, wrth gynnal asesiad ariannol, yn caniatáu i'r person gadw digon o incwm i dalu am ei GGA angenrheidiol i fodloni unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni gan ei gynllun gofal a chymorth.

### Pan fo person yn cael gofal a chymorth gartref neu yn y gymuned

**9.2** Pan fo person yn cael ei ofal a'i gymorth yn ei gartrefi/cymuned ei hun, dylid rhoi diystyriad GGA o 45% o'i hawl sylfaenol i gael Cymhorthdal Incwm/Credyd Gwarant yn unol â'r Rheoliadau.

**9.3** Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae'r Awdurdod wedi rhoi GGA dros 45% ym mhob achos, gan roi swm o £16.50 yr wythnos ar gyfer un person a £33.00 yr wythnos i gwpl (ar yr amod bod y ddau yn cael elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl / elfen byw dyddiol y Taliad Annibyniaeth Bersonol / Lwfans Gweini). Roedd hyn yn adlewyrchu cyfradd is taliadau elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl yn 2005 ac os yw bellach yn fwy na'r 45% o'r hawl sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau, yna bydd y trefniant GGA mwy hael hwn yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2026/27.

**9.4** Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ddarparu ar gyfer lefel uwch o GGA i adlewyrchu costau ychwanegol anghenion y person, lle nad yw'r costau hynny'n cael eu talu gan y lwfans presennol ar gyfer GGA. Ceir rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r mathau o wariant y gall yr Awdurdod eu cynnwys yn GGA ychwanegol ym mharagraff 2.39 Atodiad B y Canllawiau; bydd angen tystiolaeth o'r angen am unrhyw wariant o'r fath a swm y gwariant hwnnw.

**9.5** Os yw'r eitem ar gael i'r person am gost lai, gall yr Awdurdod benderfynu'n rhesymol i beidio â chaniatáu'r eitem yn GGA (paragraff 2.40 Atodiad B y Canllawiau). Penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan yr Awdurdod, yn seiliedig ar y wybodaeth berthnasol.

**Pan fo person yn cael gofal a chymorth mewn cartref gofal**

**9.6** Pan fo person yn cael ei ofal a'i gymorth mewn cartref gofal, mae gan yr Awdurdod hefyd ddisgresiwn i ddarparu ar gyfer GGA wrth gynnal asesiad ariannol. Os oes gan y person wariant sy'n ymwneud â'i anghenion gofal, nad ydynt yn cael eu bodloni o fewn y pecyn gofal preswyl y cytunwyd arno, gall yr Awdurdod gynyddu'r SII safonol i adlewyrchu'r costau ychwanegol. Penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan yr Awdurdod, yn seiliedig ar y wybodaeth berthnasol (gweler paragraff 2.39 Atodiad B y Canllawiau).

**CYFRIFO'R TÂL**

**10.1** Bydd yr Awdurdod yn cyfrifo 'incwm asesedig' person gan ddefnyddio'r dull a nodir isod. Yr incwm asesedig yw'r swm y disgwylir i'r person ei ddefnyddio i dalu tuag at ei anghenion gofal a chymorth; defnyddir yr un dull waeth beth fo'r math o leoliad gofal.

**10.2** Nodir y cyfrifiad isod mewn camau:-

I. **Cam 1**: cyfrifo incwm y person; *LLAI*
II. **Cam 2**: yr SII priodol; *LLAI*
III. **Cam 3**: y swm ar gyfer lwfansau a diystyriadau'r person, gan gynnwys unrhyw
gostau GGA ychwanegol (gweler Atodiadau 2 a 3); *YN HAFAL I*
IV. **Cam** 4: incwm asesedig y person (yn amodol ar y tâl uchaf – gweler isod).

**Pan fo person yn cael gofal a chymorth yn ei gartref ei hun**

**10.3** Y swm y mae'r person yn ei dalu tuag at ei ofal yn ei gartref ei hun fydd swm y gost wythnosol i'r Awdurdod am y gofal hwnnw lle mae ei incwm asesedig yn ddigonol iddo dalu'r gost gyfan. Er enghraifft, os yw incwm asesedig y person yn £25.00 yr wythnos, a'r gost i'r Awdurdod yn £20.00 yr wythnos, bydd y person yn talu £20.00 yr wythnos h.y. swm cyfan y gost.

**10.4** Pan nad yw incwm y person yn ddigonol i dalu swm cyfan y gost i'r

Awdurdod am ei ofal, bydd yn talu ei incwm asesedig sydd ar gael. Er enghraifft, os yw incwm asesedig y person yn £15.00 yr wythnos, a'r gost i'r Awdurdod am ei ofal yn £25.00 yr wythnos, bydd y person ond yn talu ei incwm asesedig sydd ar gael o £15.00 yr wythnos tuag at ei ofal.

**Gweithredu'r uchafswm tâl**

**10.5** Mae'r swm y mae'n rhaid i berson ei dalu tuag at ei ofal yn ddarostyngedig i uchafswm o £100 yr wythnos (cyfraddau 2026/27). Mae'n gweithredu fel a ganlyn: er enghraifft, os yw cost y gofal i'r Awdurdod yn £110.00 yr wythnos ac incwm asesedig ar gael y person yw £120.00 yr wythnos, yr uchafswm tâl y bydd yn ofynnol i'r person ei dalu o dan y rheoliadau codi tâl fydd £100 yr wythnos.

**10.6** Pan fydd person yn talu am ei ofal a'i gymorth, a hefyd yn talu am wasanaethau eraill drwy gyfrwng tâl cyfradd safonol, nid yw'r uchafswm tâl yn cynnwys cost y taliadau cyfradd safonol hynny. Felly, mae gan yr Awdurdod hawl i godi uchafswm tâl o £100 yr wythnos ar berson yn ogystal â thaliadau cyfradd safonol am y gwasanaethau eraill y maent yn eu derbyn. I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio a thrin taliadau cyfradd safonol, gweler paragraffau 5.10, 5.11, 5.12, 5.13 a 5.14 uchod.

**10.7** At ddibenion codi tâl, mae wythnos yn dechrau ar ddydd Llun ac yn gorffen ar ddydd Sul. Pan roddir gofal a chymorth am ran o wythnos yn unig, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn ofynnol i berson dalu'r tâl llawn am yr wythnos honno, hyd at uchafswm o £100 yr wythnos.

**Pan fo person yn cael gofal a chymorth mewn cartref gofal**

**10.8** Ar gyfer gofal a chymorth a roddir mewn cartref gofal ar sail barhaol, y tâl gwirioneddol i'r person fydd ei incwm sydd ar gael ar ôl didynnu'r Isafswm Incwm (gweler paragraff 8.4 uchod).

**10.9** Fodd bynnag, oherwydd newidiadau mewn hawl nawdd cymdeithasol a thrin eiddo ar ddechrau arhosiad person mewn cartref gofal, mae'n debygol y gallai fod taliadau gwahanol dros 12 wythnos gyntaf arhosiad parhaol mewn cartref gofal. Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r person am y gwahanol daliadau i'w talu a hefyd yn rhoi gwybodaeth am sut mae'r taliadau wedi'u cyfrifo.

**10.10** Pan fo person yn breswylydd parhaol mewn cartref gofal, mae'r wythnos codi tâl o ddydd Llun (6pm) i ddydd Llun (5.59pm).

**TALIADAU UNIONGYRCHOL**

**11.1** Codir tâl ar berson sy'n derbyn gofal a chymorth drwy daliadau

uniongyrchol yn unol â'r Polisi Codi Tâl hwn a'r Canllawiau (Rhan 4 Cyfraniadau ac Ad-daliadau am Daliadau Uniongyrchol).

**11.2** Gall person dderbyn gofal a chymorth drwy daliadau uniongyrchol a thrwy wasanaethau a drefnir neu a ddarperir iddynt gan yr Awdurdod. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid i'r cyfanswm sydd i'w ariannu gan y person tuag at ei ofal a'i gymorth beidio â bod yn fwy na'r uchafswm tâl wythnosol (h.y. ni ddylai fod yn fwy na £100.00 yr wythnos ar gyfer 2026/27).

## AMDDIFADU O ASEDAU/INCWM AC ADENNILL DYLEDION

### Amddifadu o asedau a/neu incwm

**12.1** Mae pobl ag anghenion gofal a chymorth yn gyffredinol yn rhydd i ddefnyddio eu cyfalaf a'u hincwm fel y dymunant, gan gynnwys rhoi fel anrhegion i ffrindiau a theulu.  Fodd bynnag, mae yna achlysuron lle gall person ag anghenion gofal a chymorth fod wedi ceisio osgoi talu am ofal a chymorth yn fwriadol trwy amddifadu eu hunain o asedau - naill ai o gyfalaf neu incwm.

**12.2** Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i achosion posibl o amddifadu o asedau a/neu incwm ac yn gwneud asesiad ar rinweddau pob achos. Pan fydd yn credu bod ganddo dystiolaeth i gefnogi canfyddiad o amddifadu, gall yr Awdurdod geisio adennill ei gostau (adran 72 DGCLIC 2014 Trosglwyddo asedau i osgoi taliadau). Yr opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod mewn achosion o'r fath yw gall godi tâl ar y person fel pe bai'n dal i feddu ar yr ased/incwm. Fel arall, gall yr Awdurdod geisio adennill ei golledion ariannol gan y person y trosglwyddwyd yr ased iddo (gweler paragraffau 8.1 - 8.3 y Canllawiau).

### Adennill Dyledion

**12.3** Pan fo'r person mewn dyled i'r Awdurdod, naill ai oherwydd amddifadu neu oherwydd methiant i dalu'r taliadau a/neu arian arall sy'n ddyledus i'r Awdurdod, gall yr Awdurdod geisio adennill y ddyled. Mae gan yr Awdurdod hawl i gyhoeddi achos llys ar gyfer adennill y ddyled ar ôl i'r holl ddewisiadau amgen rhesymol eraill ar gyfer adennill y ddyled gael eu disbyddu (adran 70 DGCLIC 2014 adennill taliadau, llog ac ati) (paragraffau 8.4 - 8.6 y Canllawiau).

**12.4** Pan fo dyled wedi cronni ar ôl cyflwyno DGCLIC 2014 (Ebrill 2016), y terfyn amser ar gyfer cyhoeddi achos i adennill y ddyled yw chwe blynedd o'r dyddiad y daeth y swm yn ddyledus i'r Awdurdod ond na chafodd ei dalu (paragraffau 3.1 a 3.2 Atodiad F y Canllawiau).

**Atodiad 1**

**FFIOEDD SAFONOL AM WASANAETHAU GOFAL A CHYMORTH 2026/27**

| GWASANAETH | TÂL 2026/27 | NODIADAU |
|---|---|---|
| Gofal Cartref / Cymorth Cartref | Cost gyfartalog yr awr £27.93 – £34.44 | Darparwr mewnol ac allanol, gan gynnwys cynlluniau gofal allanol |
| Canolfannau Dydd i Bobl Hŷn a Gwasanaethau Dydd Dementia | £283.70 y dydd | Codir tâl am brydau bwyd ar gyfradd safonol ar wahân |
| Canolfan Ddydd Gorwelion Newydd | £176.10 y dydd | Codir tâl am brydau bwyd ar gyfradd safonol ar wahân |
| Canolfan Ddydd Anableddau Dysgu / Gofal Dydd Preifat | £379.90 | Codir tâl am brydau bwyd ar gyfradd safonol ar wahân |
| Taliadau Uniongyrchol | Mae cyfraddau darparwyr fesul diwrnod yn amrywio o:<br>£17.80 yr awr yn ystod yr wythnos<br>£17.04 yr awr ar y penwythnos<br>£117.00 y noson<br>Milltiredd £0.40 y filltir | |
| TeleV+ | £10.50 yr wythnos | |

**Y gost safonol ar gyfer gofal preswyl a chymorth mewn cartref gofal i bobl hŷn ar gyfer ardal Cyngor Bro Morgannwg yw £1041.52 yr wythnos (2026/27) ac i bobl sydd â diagnosis o ddementia - £1152.23 (2026/27) yr wythnos. Y gost safonol ar gyfer gofal a chymorth nyrsio yw £1058.36 yr wythnos (2026/27) ac i bobl sydd â diagnosis o ddementia - £1170.84 (2026/27) yr wythnos. Ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ardal mae'r tâl**

**safonol yn cael ei bennu yn ôl yr awdurdod lleol sy'n cynnal y lleoliad. Ar gyfer lleoliadau cartrefi nyrsio, y gyfradd nyrsio a ariennir yw £236.99 yr wythnos (2026/27) (Cymru) ar hyn o bryd a chyfradd Gofal Nyrsio a Ariennir Gwasanaethau Cymdeithasol yw £9.61 yr wythnos (2026.27) (Bydd hyn yn cael ei adolygu gan Iechyd). Ar gyfer lleoliadau preswyl o dan 65 oed caiff y gyfradd ei phennu yn ystod y broses gaffael.**

**Sylwch ar gyfer Eiddo a Thaliadau gohiriedig, mae'r costau canlynol yn berthnasol:**

| **Ffi** | **Pan godir tâl** | **Swm** |
|---|---|---|
| Ffi Gychwynnol i dalu Costau Gweinyddol a Chyfreithiol | Dechrau Ariannu | £215.00 |
| Ffi weinyddol ar gyfer prisio eiddo a ffioedd y Gofrestrfa Tir | Dechrau Ariannu. | £185.00 neu £430 am brisiad manwl, gan gynnwys ymweliad ag eiddo.<br>Prisiad eiddo manwl uwch, ffi trwy drafodaeth. |
| Ffi flynyddol i dalu costau gweinyddol | I'w chymhwyso ar ben-blwydd y cyllid, bob blwyddyn mae'r benthyciad yn ddyledus. | £155.00 |

**<u>Atodiad 2</u>**

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

**Mae'r diystyriadau Incwm a Chyfalaf yn unol â Rhan 3 (Trin a Chyfrif Incwm), Atodlen 1 (Symiau i'w diystyru wrth gyfrifo incwm) a Rhan 4 (Trin a Chyfrif Cyfalaf) ac Atodlen 2 (Cyfalaf i'w ddiystyru) Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015**

**DIYSTYRIADAU INCWM A CHYFALAF 2026-27 ar gyfer Gofal a Chymorth yn y Cartref / Arosiadau Byr mewn Gofal Preswyl hyd at 8 wythnos**

| Math o Gyfalaf sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Ariannol | Diystyriad | Asesiad | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Cynilon, gan gynnwys cyfrifon cynilo unigol a chynlluniau ecwiti personol ac ati | Dim | Gweler y nodiadau | Cyfanswm yr holl ddiystyriadau cyfalaf yw £24,000 neu £48,000 i gyplau yn achos datgeliad llawn. £100 yr wythnos fydd y tâl i berson sengl uwchben y lefel hon yn amodol ar lefel y gofal |
| Bondiau Incwm | Yn amodol ar ddilysu’r elfen sicrwydd bywyd | Gweler y nodiadau | Fel uchod |
| Bondiau Premiwm | Dim | Gweler y nodiadau | Fel uchod |
| Stociau a Chyfranddaliadau | 10% o'r gwerth cyfredol | Gweler y nodiadau | Fel uchod |

**“Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English.”**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tystysgrifau Cynilon Cenedlaethol | Dim | Gweler y nodiadau | Gellir cael y gwerth cyfredol drwy ffonio llinell gymorth NS&I neu drwy ddefnyddio cyfrifiannell ar-lein<br><br>Fel uchod |
| Arian Parod | Dim | Gweler y nodiadau | Fel uchod |
| Eiddo | Prif Breswylfa | Dim | |
| Tir | Cyfan | Gwerth minws 10% ar gyfer treuliau gwerthu | |

| **Incwm** | **Diystyriad** | **Asesiad** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| Cymhorthdal Incwm | Dim | Cyfan | |
| Credyd Pensiwn - Credyd Gwarant | Dim | Cyfan | |
| Credyd Pensiwn - Credyd Cynilion | Person Sengl £5.75 ar y mwyaf<br><br>Cwpl £8.60 ar y mwyaf | Dim | Dim hawliadau newydd o 16 Ebrill. Yn berthnasol os dros 65 oed.<br><br>Cyfrifwch yr hawl a diystyru'r swm hyd at yr uchafswm (gan gynnwys lle nad yw'n rhan o’r taliad) |
| Pensiwn y Wladwriaeth | Dim | Cyfan | |
| Lwfans Ceisio Gwaith | Dim | Cyfan | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Taliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant | Cyfan | Dim | |
| Credyd Treth Plant | Cyfan | Dim | |
| Credyd Treth Gwaith | Cyfan | Dim | |
| Lwfans Gweini | Dim | Cyfan | Rhoddir diystyriad ychwanegol ar waith lle mae cyfradd uwch yn daladwy a lle nad yw gofal dros nos yn cael ei roi |
| Lwfans Gweini Cyson (gellir cynnwys hyn o fewn budd-daliadau eraill e.e. Anafiadau Diwydiannol) | Dim | Cyfan | Rhoddir diystyriad ychwanegol ar waith lle mae cyfradd uwch yn daladwy a lle nad yw gofal dros nos yn cael ei roi |
| Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl | Dim | Cyfan | Rhoddir diystyriad ychwanegol ar waith lle mae cyfradd uwch yn daladwy a lle nad yw gofal dros nos yn cael ei roi |
| Elfen Symudedd y Lwfans Byw i’r Anabl | Cyfan | Dim | |
| Taliadau Annibyniaeth Bersonol - Yr Elfen Bywyd Bob Dydd | Dim | Cyfan | |
| Taliad Annibyniaeth Bersonol - Yr Elfen Symudedd | Cyfan | Dim | |
| Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (neu'r | Dim | Cyfan | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| budd-daliadau eraill y mae hyn yn eu disodli e.e. Lwfans Anabledd Difrifol a Budd-dal Analluogrwydd) | | | |
| Credyd Cynhwysol | Dim | Cyfan | Yn amodol ar ddadansoddiad |
| Lwfans Profedigaeth | Dim | Cyfan | |
| Lwfans Rhiant Gweddw | Dim | Cyfan | |
| Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i Gyn-filwyr dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog | Cyfan | Dim | |
| Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i Oroeswyr o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog | £10 | Balans | |
| Budd-dal / Pensiwn Gweddwon Rhyfel | £10 | Balans | Mae angen dadansoddiad gan y gall Pensiwn Atodol y Weinyddiaeth Amddiffyn gael ei gynnwys o fewn y Pensiwn Gweddwon Rhyfel |
| Taliad Arbennig y Weinyddiaeth Amddiffyn i Weddwon Rhyfel (Pensiwn Atodol) | Cyfan | Dim | |
| Budd-Dal / Pensiwn Anabledd Rhyfel | Cyfan | Dim | Mae angen dadansoddiad i wirio a yw budd-daliadau eraill yn cael eu cynnwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn y taliad e.e. y lwfans gweini cyson – gweler y nodiadau uchod |
| Anafiadau Diwydiannol | Dim | Cyfan | Mae angen dadansoddiad i wirio a yw budd-daliadau eraill yn cael eu cynnwys yn y taliad e.e. y lwfans gweini cyson – gweler y nodiadau uchod |
| Taliadau i ddioddefwyr Erledigaeth Sosialaidd Cenedlaetholgar | £10 | Balans | |
| Lwfans Gofalwr | Dim | Cyfan | Dylid diystyru'r Lwfans Gofalwr yn llawn os yw'r person hefyd yn ofalwr sy'n derbyn y Lwfans Gofalwr am ofalu am blentyn sydd ag anabledd |
| Budd-dal Tai / Cymhorthdal Cefnogi Pobl | Cyfan | Dim | |
| Incwm o Fondiau Blwydd-dal, Pensiwn a Buddsoddi | Dim | Cyfan | Ac eithrio lle mae'n cael ei brynu gyda benthyciad a sicrhawyd ar brif gartref neu unig gartref y person neu gyda dyfarndal am ddewrder e.e. Blwydd-dal Croes Fictoria. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cyfeiriwch at Atodiad B y Cod. |
| Incwm o Eiddo heb ei feddiannu gan berson (defnyddiwr gwasanaeth) | Dim | Cyfan | |
| Incwm o Eiddo sy’n cael ei feddiannu gan berson (is-denantiaid) | £4.00 | Balans | |
| Incwm o Eiddo sy’n cael ei feddiannu gan berson lle mae gwresogi wedi’i gynnwys (defnyddiwr gwasanaeth) | £13.65 | Balans | |
| Incwm gan letywyr | Diystyru’r £20 cyntaf o'r incwm ynghyd â hanner unrhyw falans dros £20 | Balans | e.e. ceir £50 yr wythnos yn incwm, diystyrir y £20 cyntaf yn ogystal â hanner y £30 sy’n weddill (h.y £15) = cyfanswm y swm a ddiystyrir yw £35 |
| Taliadau Elusennol a Gwirfoddol | Cyfan | Dim | Dylid trin y rhain yn gyfalaf os na chânt eu gwneud yn rheolaidd |
| Enillion | Cyfan | Dim | Gan gynnwys bonws Nadolig, comisiwn, tâl gwyliau |
| Pensiwn Galwedigaethol | Dim | Cyfan | |
| Taliadau Cronfa Ymddiriedolaeth - lle maent yn cael eu trin yn Incwm | Dim | Cyfan | Yn amodol ar ddilysu ac ar delerau'r Ymddiriedolaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lwfans Maethu | Cyfan | Dim | |
| Tâl Mamolaeth / Salwch Statudol | Cyfan | Dim | |
| Lwfans Mamolaeth | Dim | Cyfan | |
| Lwfans Aelodau Etholedig | Cyfan | Dim | |
| Diogelu Morgais | Cyfan | Dim | |
| Polisïau Yswiriant Cronfa Skipton | Cyfan | Dim | |
| Cronfa Elusennol Rhyddhad Bomiau Llundain | Cyfan | Dim | |
| Taliadau yn lle Glo Consesiynol | Cyfan | Dim | |
| Gwaith a ganiateir – Enillion therapiwtig | Cyfan | Dim | |
| Taliadau wedi'i wneud o dan Y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 fel iawndal am gamweinyddiad cyfiawnder | Cyfan | Dim | |

**DIYSTYRIADAU INCWM A CHYFALAF 2026-27 Ar gyfer Gofal Preswyl Parhaol ac Arosiadau Byr ar ôl 8 wythnos**

**Terfyn presennol cyfanswm y diystyriad cyfalaf yw £50,000 ar gyfer person sengl (Llywodraeth Cymru 2026/2027)**

| Math o Gyfalaf sydd wedi'i | Diystyriad | Asesiad | Nodiadau |
|---|---|---|---|

| gynnwys yn yr Asesiad Ariannol | | | |
|---|---|---|---|
| Cynilon, gan gynnwys cyfrifon cynilo unigol a chynlluniau ecwiti personol ac ati | Dim | Gweler y nodiadau | Cyfanswm yr holl ddiystyriadau cyfalaf yw £50,000 |
| Bondiau Incwm | Yn amodol ar ddilysu'r elfen sicrwydd bywyd | Gweler y nodiadau | Fel uchod |
| Bondiau Premiwm | Dim | Gweler y nodiadau | Fel uchod |
| Stociau a Chyfranddaliadau | 10% o'r gwerth cyfredol | Gweler y nodiadau | Fel uchod |
| Tystysgrifau Cynilon Cenedlaethol | Dim | Gweler y nodiadau | Gellir cael y gwerth cyfredol drwy ffonio llinell gymorth NS&I neu drwy ddefnyddio cyfrifiannell ar-lein<br><br>Fel uchod |
| Arian Parod | Dim | Gweler y nodiadau | Fel uchod |
| Eiddo | Dim ond mewn amgylchiadau penodol yn unol â rheoliadau a chod ymarfer | Gwerth minws 10% ar gyfer treuliau gwerthu | Fel uchod |
| Tir | Dim | Gwerth minws 10% ar gyfer treuliau gwerthu | Fel uchod |

| **Incwm** | **Diystyriad** | **Asesiad** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| Cymhorthdal Incwm | Dim | Cyfan | |

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Credyd Pensiwn - Credyd Gwarant | Dim | Cyfan | |
| Credyd Pensiwn - Credyd Cynilion | Person Sengl £5.75 ar y mwyaf<br><br>Cwpl £8.60 ar y mwyaf | Dim | Dim hawliadau newydd o 16 Ebrill. Yn berthnasol os dros 65 oed.<br><br>Cyfrifwch yr hawl a diystyru'r swm hyd at yr uchafswm |
| Pensiwn y Wladwriaeth | Dim | Cyfan | |
| Lwfans Ceisio Gwaith | Dim | Cyfan | |
| Lwfans Gweini | Dim | Cyfan | Os yn gymwys am y 4 wythnos gyntaf ac yn cael ei adnewyddu ar 13eg wythnos, os yw'r eiddo'n cael ei berchen ac yn cael ei ystyried |
| Lwfans Gweini Cyson (gellir cynnwys hyn o fewn budd-daliadau eraill e.e. Anafiadau Diwydiannol) | Dim | Cyfan | Os yn gymwys am y 4 wythnos gyntaf ac yn cael ei adnewyddu ar 13eg wythnos, os yw'r eiddo'n cael ei berchen ac yn cael ei ystyried |
| Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl | Dim | Cyfan | Os yn gymwys am y 4 wythnos gyntaf ac yn cael ei adnewyddu ar 13eg wythnos, os yw'r eiddo'n cael ei berchen ac yn cael ei ystyried |
| Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r | Cyfan | Dim | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anabl | | | |
| Taliadau Annibyniaeth Bersonol - Yr Elfen Bywyd Bob Dydd | Dim | Cyfan | Os yn gymwys am y 4 wythnos gyntaf ac yn cael ei adnewyddu ar 13eg wythnos, os yw'r eiddo'n cael ei berchen ac yn cael ei ystyried |
| Taliad Annibyniaeth Bersonol - Yr Elfen Symudedd | Cyfan | Dim | |
| Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (neu'r budd-daliadau eraill y mae hyn yn eu disodli e.e. Lwfans Anabledd Difrifol a Budd-dal Analluogrwydd) | Dim | Cyfan | |
| Credyd Cynhwysol | Dim | Cyfan | Yn amodol ar ddadansoddiad |
| Lwfans Profedigaeth | Dim | Cyfan | |
| Lwfans Rhiant Gweddw | Dim | Cyfan | |
| Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i Gyn-filwyr dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog | Cyfan | Dim | |
| Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i Oroeswyr o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog | £10 | Balans | |
| Budd-dal / Pensiwn Gweddwon Rhyfel | £10 | Balans | Mae angen dadansoddiad gan y gall Pensiwn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Atodol y Weinyddiaeth Amddiffyn gael ei gynnwys o fewn y Pensiwn Gweddwon Rhyfel |
| Taliad Arbennig y Weinyddiaeth Amddiffyn i Weddwon Rhyfel (Pensiwn Atodol) | £131.26 | Balans | |
| Budd-Dal / Pensiwn Anabledd Rhyfel | Cyfan | Dim | Mae angen dadansoddiad i wirio a yw budd-daliadau eraill yn cael eu cynnwys yn y taliad e.e. y lwfans gweini cyson – gweler y nodiadau uchod |
| Anafiadau Diwydiannol | Dim | Cyfan | Mae angen dadansoddiad i wirio a yw budd-daliadau eraill yn cael eu cynnwys yn y taliad e.e. y lwfans gweini cyson – gweler y nodiadau uchod |
| Taliadau i ddioddefwyr Erledigaeth Sosialaidd Cenedlaetholgar | £10 | Balans | |
| Budd-dal Tai / Cymhorthdal Cefnogi Pobl | Cyfan | Dim | |
| Incwm o Fondiau Blwydd-dal, Pensiwn a | Dim | Cyfan | Ac eithrio lle mae'n cael ei brynu gyda benthyciad a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Buddsoddi | | | sicrhawyd ar brif gartref neu unig gartref y person neu gyda dyfarndal am ddewrder e.e. Blwydd-dal Croes Fictoria. Cyfeiriwch at Atodiad B y Cod. |
| Incwm o Eiddo heb ei feddiannu gan berson (defnyddiwr gwasanaeth) | Dim | Cyfan | |
| Taliadau Elusennol a Gwirfoddol | Cyfan | Dim | Dylid trin y rhain yn gyfalaf os na chânt eu gwneud yn rheolaidd |
| Pensiwn Galwedigaethol | Dim neu 50% | Y Cyfan neu 50% | Diystyrir 50% os bydd un aelod o gwpl a'r priod/partner yn aros gartref |
| Taliadau Cronfa Ymddiriedolaeth - lle maent yn cael eu trin yn Incwm | Dim | Cyfan | Yn amodol ar ddilysu ac ar delerau'r Ymddiriedolaeth |
| Salwch Statudol | Cyfan | Dim | |
| Diogelu Morgais | Cyfan | Dim | |
| Polisïau Yswiriant Cronfa Skipton | Cyfan | Dim | |
| Cronfa Elusennol Rhyddhad Bomiau Llundain | Cyfan | Dim | |
| Taliadau wedi'i wneud o dan Y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 fel iawndal am | Cyfan | Dim | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gamweinyddiad cyfiawnder | | | |

**Atodiad 3**

**LWFANSAU/TREULIAU 2026/27 AR GYFER GOFAL A CHYMORTH YN Y CARTREF**

| TREULIAU | SWM A GANIATEIR | NODIADAU |
|---|---|---|
| Ad-daliadau Morgais | Y Cyfan neu atebolrwydd % | |
| Polisïau gwaddol sy'n gysylltiedig ag Ad-daliadau Morgais | Y Cyfan neu atebolrwydd % | |
| Rhent - ddim yn byw gyda pherthynas agos | Cyfan | Net y Budd-dal Tai a'r Cymhorthdal Cefnogi Pobl |
| Rhent - byw gyda pherthynas agos – DIM OND os yw'r taliad yn cael ei ddatgan | £8.95 yr wythnos | Mae angen tystiolaeth os yn cyfrannu mwy na'r lwfans tuag at rent/morgais |
| Rhent Tir | Y Cyfan neu atebolrwydd % | |
| Taliadau Gwasanaeth | Y Cyfan neu atebolrwydd % | |
| Benthyciad Gwella Cartref | Y Cyfan neu atebolrwydd % | |

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

| | | |
|---|---|---|
| Treth Cyngor (ni ddylai pobl sy'n hawlio'r Cymhorthdal Incwm fod yn talu'r Dreth Cyngor) | Gwir swm sy'n daladwy neu atebolrwydd % | |
| Yswiriant Adeilad a Chynnwys | Y Cyfan neu atebolrwydd % | |
| Piper Alarm / TeleV – Mae angen tystiolaeth, gall y gost gael ei thalu gan Fudd-dal Tai / Cefnogi Pobl | Gwir gost wythnosol | |
| Taliadau Cynhaliaeth Plant – Angen tystiolaeth | Cyfan | |

**LWFANSAU/TREULIAU 2025/26 AR GYFER GOFAL PRESWYL PARHAOL**

| TREULIAU | SWM A GANIATEIR | NODIADAU |
|---|---|---|
| Ad-daliadau Morgais | Y Cyfan neu atebolrwydd % | 12 wythnos gyntaf lleoliad gofal preswyl parhaol |
| Polisïau gwaddol sy'n gysylltiedig ag Ad-daliadau Morgais | Y Cyfan neu atebolrwydd % | |
| Rhent - ddim yn byw gyda pherthynas agos | Cyfan | Caniatewch ar gyfer y 4 wythnos gyntaf |
| Rhent - byw gyda pherthynas agos – DIM OND os yw'r taliad yn cael ei ddatgan | Y Cyfan (Net y Budd-dal Tai a'r Cymhorthdal Cefnogi Pobl) | Caniatewch ar gyfer y 4 wythnos gyntaf |
| Rhent Tir | Y Cyfan neu atebolrwydd % | Y 12 wythnos gyntaf os yw'r eiddo'n cael ei berchen |

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau Gwasanaeth | Y Cyfan neu atebolrwydd % | Y 12 wythnos gyntaf os yw'r eiddo'n cael ei berchen |
| Benthyciad Gwella Cartref | Y Cyfan neu atebolrwydd % | Mae angen tystiolaeth - y 12 wythnos gyntaf os yw'r eiddo'n cael ei berchen |
| Treth Cyngor (ni ddylai pobl sy'n hawlio'r Cymhorthdal Incwm fod yn talu'r Dreth Cyngor) | Gwir swm sy'n daladwy neu atebolrwydd % | Gwiriwch a oes eithriad oherwydd gofal preswyl parhaol, neu mae uchafswm o 12 wythnos yn daladwy |
| Yswiriant Adeilad a Chynnwys | Y Cyfan neu atebolrwydd % | 4 wythnos os yw'r eiddo'n cael ei rentu. Os yw'r eiddo'n cael ei berchen, wedyn dim ond Yswiriant Adeilad ar ôl 4 wythnos. |
| Trethi Dŵr / Tâl Dŵr Safonol | Cyfan | 4 wythnos os yw'r eiddo'n cael ei rentu. Y 12 wythnos gyntaf os yw'r eiddo'n cael ei berchen a'i fod yn wag |
| Taliadau Cynhaliaeth Plant – Angen tystiolaeth | Cyfan | |

**Pan fydd arhosiad dros dro mewn gofal preswyl yn parhau ar ôl 8 wythnos, bydd lwfansau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer ymrwymiadau cartref.**

**Atodiad 4**

## Cyngor Bro Morgannwg

**Adolygu penderfyniad -**

**Cefndir**

**"Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English."**

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Phenderfyniadau Codi Tâl) (Cymru) 2015 yn caniatáu i berson ofyn, trwy broses gyson, am adolygiad o benderfyniad i osod tâl, mewn perthynas â'r gwasanaethau gofal a chymorth y mae'n eu derbyn.

**Gwneud cais am adolygiad**

Personau (neu eu cynrychiolwyr) a all ofyn am adolygiad:

- Person y codir tâl arno am wasanaethau gofal a chymorth y bydd yn eu derbyn, neu eisoes yn eu derbyn.

- Person y mae'n ofynnol iddo dalu cyfraniad neu wneud ad-daliad y bydd yn ei sicrhau, neu eisoes yn ei sicrhau, trwy Daliadau Uniongyrchol

- Person atebol y mae eiddo neu arian wedi'i drosglwyddo iddo gan berson y mae ei anghenion gofal a chymorth wedi'u diwallu, neu wrthi'n cael eu diwallu gan awdurdod lleol, gyda'r bwriad o osgoi ffioedd am ddiwallu'r angen hwnnw.

**Pan ellir gofyn am adolygiad:**

- Os nad ydym wedi dilyn y Ddeddf, y rheoliad neu'r cod, neu ein polisi codi tâl

- Os gwnaed gwall wrth gyfrifo'r tâl

- Os yw tâl wedi'i wneud am ofal a chymorth nad yw wedi'i ddarparu

- Pe byddai talu'r tâl yn achosi caledi ariannol

- Os yw trosglwyddai atebol yn honni nad oedd yr asedau wedi cael eu trosglwyddo er mwyn osgoi taliadau neu'n cwestiynu gwerth y trosglwyddiad.

Pan fydd amgylchiadau ariannol person yn newid, e.e. newid yn ei fudd-daliadau lles neu'r newid blynyddol yn y lefel budd-daliadau a phensiwn y wladwriaeth, bydd ailasesiad yn cael ei gynnal. Nid yw'r amgylchiadau hyn yn arwain at gais am adolygiad, dim ond pan fo'r person yn anhapus â chanlyniad ailasesiad y gall ofyn am adolygiad.

**Proses ar gyfer gofyn am adolygiad**

- Gellir gofyn am adolygiad ar unrhyw adeg ar ôl i benderfyniad gael ei wneud

- Rhaid i gais nodi'r amgylchiadau a'r rhesymau pam mae'r adolygiad yn cael ei wneud

- Gellir gwneud cais yn ysgrifenedig neu ar lafar

- Gall cynrychiolydd y person sy'n ceisio'r adolygiad wneud cais, ond rhaid i'r person roi ei awdurdodiad ar gyfer hyn ar lafar neu yn ysgrifenedig. Pan wneir hyn ar lafar, byddwn yn rhoi datganiad i'r person a'i gynrychiolydd yn cadarnhau'r penodiad a natur cyfranogiad y cynrychiolydd yn yr adolygiad.

Gall person dynnu cais yn ôl ar unrhyw adeg, ar lafar neu yn ysgrifenedig. Byddwn yn rhoi datganiad i gadarnhau bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

Pan fydd cais blaenorol am adolygiad wedi'i drin a chais arall mewn cysylltiad â'r un amgylchiadau yn cael ei wneud gan berson, nid oes rhaid i ni ystyried yr adolygiad, ond byddwn yn anfon datganiad at y person yn rhoi rhesymau.

**Proses Gydnabyddiaeth**

Bydd datganiad o gydnabyddiaeth yn cael ei anfon at y person yn cadarnhau y derbyniwyd y cais o fewn 5 diwrnod gwaith a bydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Cadarnhad o sail y cais
- Pa wybodaeth neu ddogfennaeth bellach sydd ei hangen
- Cynnig ymweliad cartref
- Sut fydd yr adolygiad yn cael ei brosesu
- Y gall person benodi cynrychiolydd
- Nad oes rhaid i'r person barhau i dalu ond mae'r atebolrwydd am daliadau yn parhau
- Bydd taliadau uniongyrchol yn cael eu talu ar sail gros pan nad yw'r person yn dymuno talu'r cyfraniad yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Os yw'r person sy'n gwneud y cais am adolygiad yn drosglwyddai atebol, bydd y gydnabyddiaeth yn nodi lle gofynnir am wybodaeth neu ddogfennaeth gan berson arall, a beth fydd y wybodaeth honno. Bydd datganiad hefyd yn cael ei roi i'r person hwnnw yn nodi natur y cais, y wybodaeth sydd ei hangen, yr amserlen, y cynnig o ymweliad cartref a manylion cyswllt.

Nid yw'r broses gydnabyddiaeth yn berthnasol pan wneir penderfyniad ar adolygiad o fewn 5 diwrnod gwaith.

**Darparu dogfennaeth bellach**

- Rhaid darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth o fewn 15 diwrnod gwaith.

- Gall person neu gynrychiolydd ofyn am estyniad amser, gydag esboniad. Bydd cadarnhad o unrhyw estyniad y cytunir arno yn cael ei wneud yn ysgrifenedig.

- Gall y person ofyn am ymweliad cartref at ddibenion darparu'r ddogfennaeth bellach.

Os nad yw'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth y gofynnir amdani yn cael ei chyflwyno o fewn 15 diwrnod, bydd yr adolygiad yn cael ei drin fel pe bai wedi'i dynnu'n ôl. Bydd datganiad yn cael ei anfon at y person a fydd yn cynnwys y tâl sy'n daladwy, y swm sy'n ddyledus a'r dyddiad y mae'n ddyledus erbyn.

Os nad yw'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth y gofynnir amdani yn cael ei chyflwyno gan drydydd person mewn cysylltiad ag adolygiad sy'n cynnwys trosglwyddai atebol, rhaid anfon datganiad at y trydydd person hwnnw, y person sy'n gofyn am yr adolygiad ac unrhyw gynrychiolydd.

**Penderfyniad ar yr adolygiad**

O fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn digon o wybodaeth, rhaid gwneud penderfyniad ac anfon datganiad at y person ac unrhyw gynrychiolydd gan gynnwys:

- Canlyniad yr adolygiad
- Y rhesymau dros y penderfyniad
- A yw tâl y person wedi ei ddiwygio
- Datganiad newydd o'r tâl diwygiedig
- Opsiwn o weithdrefn gwyno

Os mai dim ond rhywfaint o’r wybodaeth neu ddogfennaeth y gofynnwyd amdani a dderbynnir, bydd penderfyniad ar yr adolygiad yn cael ei wneud ar sail y wybodaeth sydd ar gael o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi fel uchod.

Os na wneir penderfyniad ar yr adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith, yna bydd y person yn cael ei hysbysu gyda'r rheswm pam a'r dyddiad erbyn pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Ni fydd taliadau'n cael eu cronni yn ystod y cyfnod hwn.

Wrth wneud penderfyniad ar adolygiad, bydd rheoliad 14(4) o'r rheoliadau yn cael ei ystyried yn ogystal ag unrhyw galedi ariannol ehangach y gall person ei brofi o ganlyniad i'w nam, cyflwr meddygol neu amgylchiadau personol.

Bydd penderfyniadau ar adolygiadau yn cael eu gwneud gan swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol i wneud y penderfyniad hwnnw. Ni fyddant wedi bod yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad gwreiddiol.

**Talu taliadau ar ôl cyfnod yr adolygiad**

- Bydd swm y tâl sydd wedi'i sefydlu fel y swm cywir yn deillio o ganlyniad yr adolygiad yn ddyledus ar gyfer cyfnod yr adolygiad

- Bydd yr opsiwn o ad-dalu unrhyw dâl sydd wedi cronni mewn rhandaliadau cyfnodol yn cael ei gynnig.